LANGa15

Cynorthwyo’r gwaith o fagu cywion adar helwriaethac adar helwriaeth ifanc

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo'r gwaith o fagu cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc. Mae'n ymwneud â'r gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud i ofalu am gywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc yn ystod cyfnod cynnar eu bywyd.

Mae'r safon hon wedi ei hanelu at y rheiny sy'n gweithio ym maes gwarchod helgig naill ai'n llawn amser neu'n rhan-amser, a gellir ei chymhwyso i unrhyw ardal rheoli bywyd gwyllt neu fferm helgig sy'n gysylltiedig â magu cywion adar helwriaeth neu adar helwriaeth ifanc.

Er mwyn bodloni'r safon hon byddwch yn gallu:

- ymdrin â chywion adar helwriaeth
- sefydlu cywion adar helwriaeth yn ddiogel mewn uned fagu
- gofalu am gywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
- cynnal lles adar helwriaeth ifanc.

Er mwyn i chi ddeall cynnwys y safon yn llawn, a'r gweithgareddau y mae'n eu disgrifio, mae'n bwysig eich bod yn gallu deall y termau a ddefnyddir yn y safon. Gweler yr Eirfa am rai diffiniadau a ddylai eich cynorthwyo gyda hyn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwneud gweithgareddau yn ddiogel, yn unol â gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. sicrhau bod yr uned fagu mewn cyflwr diogel a glân yn barod i dderbyn cywion adar helwriaeth
3. paratoi'r offer magu i ddarparu'r amodau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer cywion adar helwriaeth
4. cynorthwyo'r gwaith o fagu cywion adar helwriaeth trwy eu sefydlu'n ddiogel yn yr uned fagu
5. ymdrin â chywion adar helwriaeth mewn ffordd sydd yn cynnal eu lles ac yn cynyddu eu siawns o oroesi
6. darparu bwyd a dwr sy'n briodol i oed a chyfnod datblygu cywion adar helwriaeth
7. arsylwi ymddygiad stoc newydd cywion adar helwriaeth a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw arwyddion o straen neu anhwylder
8. monitro twf a datblygiad cywion adar helwriaeth er mwyn pennu a ddylid eu symud i'r ardal fagu neu beidio
9. cynorthwyo'r gwaith o fagu adar helwriaeth ifanc trwy gadw'r ardal fagu mewn cyflwr glân a diogel er mwyn darparu'r amodau amgylcheddol gofynnol
10. monitro a chynnal swyddogaeth offer magu i gynyddu siawns y cywion adar helwriaeth o oroesi
11. darparu bwyd a dwr i gyd-fynd ag anghenion datblygiad adar helwriaeth ifanc
12. arsylwi ymddygiad adar helwriaeth ifanc a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw arwyddion o straen neu anhwylder
13. gwaredu gwastraff a marwolaethau yn gyfrifol, yn unol â gofynion cyfreithiol a rhai'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
14. cadw cofnodion cywir o weithgareddau magu yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a rhai'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sy'n gysylltiedig â magu cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
2. gofynion yr uned fagu a'r ardal fagu sydd yn cynnal cyflwr a siawns cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc o oroesi
3. sut i baratoi a chynnal unedau magu ac ardaloedd magu
4. yr amodau amgylcheddol sy'n ofynnol gan gywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc, a phwysigrwydd cynnal y gofynion hyn
5. sut i gynnal yr amodau amgylcheddol, gan ystyried tywydd cyfredol
6. nodweddion ymddygiad arferol a'r arwyddion sy'n dynodi straen ac anhwylder ymysg cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
7. y gofynion lles ar gyfer cyfnodau gwahanol datblygiad cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
8. yr anhwylderau cyffredin sy'n gysylltiedig â chywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc a sut i ymdrin â nhw
9. achosion tebygol marwolaethau ymysg cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
10. sut i ymdrin â chywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc mewn ffordd sydd yn cynnal eu lles
11. y gofynion bwyd a dwr ar gyfer cyfnodau gwahanol datblygiad cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc
12. sut i amddiffyn cywion adar helwriaeth ac adar helwriaeth ifanc rhag plâu ac ysglyfaethwyr
13. sut i galedu adar helwriaeth ifanc
14. sut i atal pigo plu
15. sut a phryd i ffrwyno adar helwriaeth
16. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n rheoli cludo adar helwriaeth
17. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n rheoli gwaredu marwolaethau a gwastraff
18. y gofynion cyfreithiol a rhai'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo ar gyfer cadw cofnodion

Geirfa

Adar helwriaeth – Ffesant, petrisen, hwyaden

Amodau amgylcheddol:

- tymheredd
- hylendid

LANGa15

Cynorthwyo’r gwaith o fagu cywion adar helwriaethac adar helwriaeth ifanc

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2017
Indicative Review Date	Ionawr 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	O29NGa8
Galwedigaethau perthnasol	Gweithiwr Ystâd; Ciper
Cyfres/Set	Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt
Geiriau Allweddol	adar helwriaeth; cywion, ifanc; gofal; ffesant; petrisen; hwyaden